Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Newport Consulting Rooms

Dyddiad arolygu: 25 Chwefror 2025
Dyddiad cyhoeddi: 28 Mai 2025

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83715-793-8

© Hawlfraint y Goron 2025

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.

Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 8

- Ansawdd Profiad y Claf 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 10
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 13

4. Y camau nesaf 14

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 15

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith 16

Atodiad C - Cynllun gwella 18

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Newport Consulting Rooms ar 25 Chwefror 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Cafodd Newport Consulting Rooms ei gofrestru gyntaf ar 23 Mehefin 2015.

Nid oes gan y gwasanaeth unrhyw gyflogeion heblaw am y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar y fferyllfa gysylltiedig hefyd.

Ar adeg yr arolygiad, dim ond gwasanaethau podiatreg a chlinig teithio oedd wedi cael eu darparu.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:
- Sicrhau y caiff posteri sy'n hysbysu cleifion am eu hawl i ofyn am hebryngwr eu harddangos
- Sicrhau bod y staff sy'n gweithio fel hebryngwyr yn cael hyfforddiant priodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Amgylchedd taclus a chroesawgar
- Hygyrchedd y gwasanaeth
- Cynnal preifatrwydd ac urddas.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Yn ôl pob golwg, roedd y gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn cynnwys digon o gyfarpar i ddarparu'r gwasanaethau presennol.

Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion mewn perthynas â chlinig teithio'r gwasanaeth a gwelsom eu bod o safon dda.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol
- Trefnu gwiriad o'r gosodiadau trydanol
- Adolygu'r broses ar gyfer mewngofnodi i'r cyfrifiaduron er mwyn sicrhau nad yw'r staff yn gallu cael mynediad i'r system gan ddefnyddio manylion mewngofnodi pobl eraill.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd asesiadau risg cynhwysfawr ar waith wedi'u hategu gan bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig

- Nodiadau cleifion trefnus a chlir.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd yn ymddangos fod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda gan y rheolwr cofrestredig.

Roedd y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn yr ystafelloedd ymgynghori, ar adeg ein harolygiad, yn unol ag amodau cofrestru AGIC.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Caiff adolygiadau chwarterol o'r gwasanaeth eu cynnal gan y rheolwr cofrestredig i nodi meysydd i'w gwella fel rhan o weithgarwch sicrhau ansawdd y gwasanaeth.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Diogelu a gwella iechyd
Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion am sut y gallant gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Roedd taflenni am y gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig ar gael yn yr ystafelloedd ymgynghori. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Urddas a pharch
Gwelsom fod trefniadau ar waith i hybu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd gan y gwasanaeth bolisi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd gyda'r nod o sicrhau bod yr holl gleifion a'u gofalwyr yn cael eu trin yn unol ag egwyddorion urddas a pharch.

Roedd gan y gwasanaeth dair ystafell ymgynghori unigol fawr a oedd yn cynnwys digon o gyfarpar. Roedd modd cloi'r drysau yn ystod ymgyngoriadau ac roedd sgrin symudol ar gael i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod ymgyngoriadau neu pan oeddent yn cael triniaeth.

Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion am eu hawl i gael hebryngwr pan fyddant yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd, ac nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant yn hyn o beth. Nod defnyddio hebryngwyr yw amddiffyn y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a'r claf pan fydd y claf yn cael ei archwilio gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos sy'n rhoi gwybod i'r cleifion am eu hawl i gael hebryngwr pan fyddant yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd ac mae'n rhaid i'r staff gael hyfforddiant priodol ar fod yn hebryngwr.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion
Roedd y person cofrestredig wedi llunio Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd y rhain yn nodi gwybodaeth am yr ystafelloedd ymgynghori ac yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir, sut y gellid cael gafael arnynt a'r trefniadau ar gyfer cydsynio i driniaeth. Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael hefyd ynghylch cael cydsyniad dilys gan gleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd yn cael ei darparu ar ffurf taflenni yn uniaith Saesneg. O ystyried bod y gwasanaeth yn gweithredu yng Nghymru, dylid gwneud mwy o ymdrech i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod nifer o staff yn y fferyllfa gysylltiedig yn siarad amrywiaeth o ieithoedd gan gynnwys Cymraeg ac ieithoedd eraill y Dwyrain Canol a'r isgyfandir ac y byddent ar gael fel cyfieithwyr. Dywedodd y rheolwr cofrestredig weithiau y bydd perthnasau'r cleifion hefyd yn cyfieithu ar eu rhan.

Dylai'r person cofrestredig ystyried defnyddio dulliau amgen yn lle dibynnu ar berthnasau'r cleifion i gyfieithu fel Language Line neu Google Translate.

Dylid gwneud ymdrech hefyd i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd a fformatau eraill, gan ystyried anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Roedd dolen sain ar gael i helpu'r cleifion hynny sy'n drwm eu clyw (a'r rhai hynny sy'n gwisgo cymhorthion clyw) i gyfathrebu â'r staff yn y gwasanaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Dim ond triniaethau podiatreg a chlinigau teithio oedd yn cael eu cynnig yn yr ystafelloedd ymgynghori ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau ar gyfer darparu gofal a thriniaeth pan fydd y gwasanaeth yn dod yn gwbl weithredol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y rheolwr cofrestredig yn cydnabod ei gyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Roedd polisïau ysgrifenedig ar waith a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar, mewn perthynas â phreifatrwydd, urddas a chyfrinachedd.

Roedd mynediad gwastad da i'r ystafelloedd ymgynghori drwy'r fferyllfa gysylltiedig. Roedd yr holl gyfleusterau, gan gynnwys desg y dderbynfa, yr ystafell aros, toiledau'r cleifion a'r ystafelloedd ymgynghori ar y llawr gwaelod.

Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth

Roedd cyfle i gleifion roi sylwadau ar eu profiad o ymweld â'r ystafelloedd ymgynghori ac roedd holiaduron yn cael eu defnyddio er mwyn iddynt roi adborth yn barhaus.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd
Yn ôl yr olwg, roedd amgylchedd y gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd mewn cyflwr da.

Gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch
Roedd yr allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir, ac roedd y cyfarpar diogelwch tân wedi cael ei wirio er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Roedd asesiadau risg cyffredinol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gwiriad o'r gosodiadau trydanol wedi cael ei gynnal yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn unol â'r canllawiau.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig drefnu gwiriad o'r gosodiadau trydanol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi
Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael er mwyn helpu i roi arweiniad i'r staff ar atal a rheoli heintiau.

Roedd y gwasanaeth yn lân ac yn daclus ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff er mwyn helpu i atal achosion o groes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael. Mae golchi dwylo yn effeithiol yn bwysig er mwyn helpu i atal a rheoli heintiau.

Roedd offer miniog meddygol (fel nodwyddau) wedi cael eu rhoi mewn cynwysyddion priodol i'w gwaredu'n ddiogel. Mae hyn yn helpu i leihau'r risg o anafiadau (i'r staff a'r cleifion) ac achosion o groes-heintio yn deillio o offer miniog a ddefnyddiwyd.

Pe bai'r gwasanaeth yn darparu gweithdrefnau clinigol yn y dyfodol, gwnaethom awgrymu y dylid cael polisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau unigol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth i ategu'r polisi cyffredinol a oedd ar waith. Dylai'r rhain ddarparu manylion am y trefniadau penodol ar gyfer pob math o wasanaeth gofal iechyd a ddarperir.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar gael a'r rheolwr cofrestredig, sy'n fferyllydd cymwysedig, oedd yn gyfrifol am archebu meddyginiaethau, cael gafael arnynt, eu storio a'u gwaredu'n ddiogel.

Roedd y brechlynnau teithio a oedd yn cael eu defnyddio yn y gwasanaeth yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd cofnodion o'r meddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi i'r cleifion yn cael eu cadw.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i roi arweiniad i'r staff ar y camau i'w cymryd pe byddent yn amau bod plant neu oedolion sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg yn cael eu cam-drin. Roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y bwrdd iechyd a thimau diogelu'r awdurdod lleol. Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth wedi cwblhau hyfforddiant diogelu i lefel a oedd yn briodol i'w rolau.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Nid oedd llawer o gyfarpar ar gael yn y gwasanaeth i helpu i ddarparu'r gofal a'r triniaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd i gleifion. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cyfarpar hwn yn cael ei adnewyddu bob blwyddyn, sy'n golygu nad oes angen iddo gael ei brofi a'i galibradu'n rheolaidd.

Roedd cyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf (llewygu) ar gael yn y fferyllfa gysylltiedig ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant addas ar adfywio a chymorth cyntaf.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ni fu'n bosibl gwerthuso'r agwedd hon ar yr ystafelloedd ymgynghori yn llawn gan mai dim ond gwasanaethau cyfyngedig oedd yn cael eu darparu ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar gael i helpu i weithredu a datblygu'r gwasanaeth, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion mewn perthynas â chleifion a oedd wedi mynychu'r ystafelloedd ymgynghori i gael brechlynnau teithio a gwelsom eu bod yn drefnus ac yn cynnwys digon o fanylion am y driniaeth a roddwyd i bob claf.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd cofnodion papur yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo ac roedd mynediad cyfyngedig i'r cofnodion electronig a oedd wedi'u storio ar gyfrifiaduron, yr oedd angen cyfrinair er mwyn gallu eu gweld. Fodd bynnag, roedd risg y gallai'r staff gael mynediad i'r system gan ddefnyddio manylion mewngofnodi pobl eraill.

Rhaid i'r person cofrestredig adolygu'r broses ar gyfer mewngofnodi i'r cyfrifiaduron er mwyn sicrhau nad yw'r staff yn gallu cael mynediad i'r system gan ddefnyddio manylion mewngofnodi pobl eraill.

Rheoli cofnodion

Roedd polisi rheoli cofnodion a diogelu data ar waith a oedd yn nodi mai'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth sy'n gyfrifol am gofnodion cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn yr ystafelloedd ymgynghori, ar adeg ein harolygiad, yn unol ag amodau cofrestru AGIC. Roedd y tystysgrifau cofrestru yn cael eu harddangos mewn man amlwg, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion cyfredol ar gael. Roeddent yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd y ddwy ddogfen wedi cael eu diweddaru ers arolygiad diwethaf AGIC yn 2019.

Gwelsom gopïau o adolygiadau chwarterol o'r gwasanaeth roedd y rheolwr cofrestredig wedi'u cwblhau yn ystod y tri mis blaenorol a oedd yn nodi meysydd i'w gwella fel rhan o weithgarwch sicrhau ansawdd y gwasanaeth.

Roedd amrywiaeth o bolisïau ar gael ar gyfer rheoli'r gwasanaeth. Roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gael a oedd yn nodi'n glir yr amserlenni ar gyfer cydnabod cwynion ac ymateb iddynt, yn unol â'r rheoliadau; roedd hefyd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw staff wedi'u cyflogi'n uniongyrchol yn y gwasanaeth ac roedd y datganiad o ddiben yn nodi'n glir mai gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth a oedd yn gweithio yno, a hynny ar sail hunangyflogedig.

Gellid galw ar rai aelodau o staff a oedd wedi'u cyflogi yn y fferyllfa gysylltiedig i helpu yn yr ystafelloedd ymgynghori pe byddai angen.

Roedd trefniadau ar waith i asesu addasrwydd y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth cyn darparu gwasanaethau i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys gwirio cofrestriad unigolion â chyrff proffesiynol, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cofnodion Hepatitis B, geirdaon ysgrifenedig, hanes cyflogaeth a chofnodion hyfforddiant.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, nid oedd y gwasanaeth yn cyflogi unrhyw aelodau o staff yn uniongyrchol ar adeg yr arolygiad.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	**Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion**	**Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder**	**Sut y cafodd y pryder ei ddatrys**
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Newport Consulting Rooms

Dyddiad yr arolygiad:25 Chwefror 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni thynnwyd sylw at unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch					

	yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Newport Consulting Rooms

Dyddiad yr arolygiad: 25 Chwefror 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

	Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion am eu hawl i gael hebryngwr pan fyddant yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd, ac nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant ar fod yn hebryngwr.	Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos sy'n rhoi gwybod i'r cleifion am eu hawl i gael hebryngwr pan fyddant yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd ac mae'n rhaid i'r staff gael hyfforddiant priodol ar fod yn hebryngwr.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 16. Safon 11. Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed	Mae hysbysiad wedi cael ei arddangos sy'n rhoi gwybod i'r cleifion bod hawl ganddynt i ofyn am hebryngwr pan fyddant yn cael eu gweld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Bydd aelod gwrywaidd ac aelod benywaidd o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant priodol ar fod yn hebryngwr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.	Mr Asim Ali Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau I'w gwblhau erbyn 30/06/2025

2.	Mae perthnasau weithiau yn cyfieithu ar ran y cleifion.	Dylai'r person cofrestredig ystyried defnyddio dulliau amgen yn lle dibynnu ar berthnasau'r cleifion i gyfieithu fel Language Line neu Google Translate.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 18 (1) (b). Safon 18. Cyfathrebu'n Effeithiol	Mae Google Translate yn cael ei ddefnyddio mewn ymgyngoriadau i gyfieithu ymgynghoriad pan fo angen.	Mr Asim Ali Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau
3.	Nid oedd gwiriad o'r gosodiadau trydanol wedi cael ei gynnal yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn unol â'r canllawiau.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig drefnu gwiriad o'r gosodiadau trydanol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 26 (2). Safon 12. Yr amgylchedd	Mae gwiriad o'r gosodiadau trydanol wedi cael ei drefnu gyda gosodwr trydanol gwreiddiol yr adeilad.	Mr Asim Ali Rheolwr Cofrestredig	I'w gwblhau erbyn 30/06/2025
4.	Roedd risg y gallai'r staff gael mynediad i'r system gyfrifiadurol gan ddefnyddio manylion mewngofnodi pobl eraill.	Rhaid i'r person cofrestredig adolygu'r broses ar gyfer mewngofnodi i'r cyfrifiaduron er mwyn sicrhau nad yw'r staff yn gallu cael mynediad i'r system gan ddefnyddio manylion	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23. Safon 20. Rheoli Cofnodion	Mae'r weithdrefn fewngofnodi wedi cael ei hadolygu er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw fanylion mewngofnodi eu cadw. Hefyd, mae'r ystafell ymgynghori wedi'i chloi drwy'r amser.	Mr Asim Ali Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau

		mewngofnodi pobl eraill.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Mr Asim Ali

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 2 Ebrill 2025